



HEDDWCH

Rhifyn 78 > Mis Awst 2021 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Dai Owen



HANNER-PAN A PHERYGLUS

Bwriad Boris Johnson yw ehangu arsenal niwclear y DU mewn adeg o ansicrwydd byd-eang, gan ddangos dirmyg at y gyfraith ryngwladol. Dydy jingoistiaeth, rhethreg wag, gemau rhyfel a breuddwydion ofer am ymerodraeth hirgoll ddim yn eistedd yn dda iawn gyda phandemig byd-eang ac argyfwng hinsawdd. Gad dy lap, Johnson, a gad lonydd i'r bomiau ... jest tala'r nyrsys, er mwyn dyn!

40 MLYNEDD WEDYN ... DALIWCH ATI

Penblwydd hapus i ni! Mae'n ddeugain mlynedd ers sefydlu CND Cymru fel mudiad cenedlaethol annibynnol. Ar Awst 27, byddwn hefyd yn dathlu 40 mlwyddiant taith Menywod dros Fywyd ar y Ddaear o Gaerdydd i Gomin Greenham. Roedd Cadeirydd CND Cymru JILL EVANS ar y daith, ac mae'n coffáu'r ddau ddigwyddiad, tt4-5.

Yr hawl i brotestio

Cafodd menywod Greenham eu pardduo gan Margaret Thatcher a'r wasg boblogaidd. Heddiw, mae llywodraeth Geidwadol arall yn ceisio cwtogi ar yr hawl i brotestio gyda Mesur yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd. Bu protestio a gweithredu uniongyrchol di-drais wrth galon gweithgaredd CND o'r dechrau a rhaid eu hamddiffyn mor gryf heddiw ag a wnaed yn Greenham. *Gweler protestiadau Kill the Bill! yng Nghymru, t12.*

Mae peth newyddion da, fodd bynnag. Ar 25 Mehefin dilewyd euogfarn pedwar protestiwr yn ffair arfae DSEI Llundain 2017 gan y Goruchaf Lys: cadarnhawyd yr hawl i brotestio, hyd yn oed yn aflonyddgar, o dan y gyfraith.

Maniffesto dros Heddwch

Yn y cyfnod yn arwain at etholiadau'r Senedd ar y 6 o Fai, cyhoeddodd Cymdeithas y Cymod Faniifesto dros Heddwch, sy'n cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer ein gweithredu a'n blaenoriaethau. *Fe'i cyflwynir gan Jane Harris, t10.*

Mwy o ergydion niwclear

Mae dirmyg Johnson tuag at gyfraith ryngwladol yn ymddygiad cwbl Trumpaidd. Mae ei benderfyniad i gynyddu nifer ergydion niwclear y DU yn wfftio amcanion y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear. Mae'n arbennig o gywilyddus yng ngoleuni'r cwtogi hallt ar gymorth tramor. *Gweler adroddiad Brian Jones, t3.*

COP 26 a thu hwnt

Mae COP 26 yn nesáu. Mae gan y DU dargedau hinsawdd uchelgeisiol, ond ni wnaed nemor ddim. *Linda Rogers sy'n esbonio pam na all gwyrddgalchu niwclear ddatrys argyfwng hinsawdd, tt6-7.* A allai technolegau newydd blaengar achub y dydd? *Dim rhai fel ymasiad*

niwclear, meddai Dr Ian Fairlie, tt8-9. Gynghorau Sir Benfro a Bro Morgannwg, dalier sylw.

Détente, nid Ail Ryfel Oer

Ar ôl hunllef Trump, mae polisïau tramor Biden yn dychwelyd i safle normal yr UD – gyda ffocws ar NATO a Rhyfel Oer newydd gyda China. Mae record hawliau dynol echrydus China yn destun pryder mawr, ond y perygl yw bod rhethreg galed yn wrth-gynhyrchiol. Rhoddodd y ffaith i Trump gefnu ar gytundeb niwclear Iran (JCPOA) yr etholiad i elfennau digymrodded yn Iran. Os ydych yn cystwyo'ch gwrthwynebwyr am sathru ar hawliau dynol a sifil, rhaid i chithau fod yn sefyll ar dir moesol diogel – fel arall yr ymateb yw “a Guantánamo?”

PHILIP STEELE

PAPUR NEU DDIGIDOL?

Danysgrifwyr: ydych chi am ddefnyddio llai o bapur? Cofiwch y gellwch dderbyn Heddwch ar ffurf electronig os yw'n well gennych, dim ond i chi hysbysu michael.freeman9@btinternet.com o'ch cyfeiriad ebost cyfredol.



Protest Aberystwyth yn erbyn Mesur yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd

Y cynghorau cyntaf i gefnogi gwaharddiad byd-eang

Mae'r cynghorau Cymreig cyntaf wedi pasio cynigion yn croesawu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear: go dda chi, Cyngor Dinas Bangor a Chyngor Tref Nefyn— a Chyngor Gwynedd hefyd! Gobeithio mai'r cyntaf o lawer fydd y rhain.

Yn sgil etholiadau'r Senedd, mae 20 Aelod o'r Senedd wedi arwyddo'r Addewid Seneddol yn cefnogi'r TPNW. Gellwch weld pwy ydynt yn y fan hon:

<https://www.cndcymru.org/cy/gwybodaeth/cwan/addewid>

Os nad yw eich aelodau chi wedi arwyddo, cysylltwch nhw a gofyn iddynt wneud.

heddweithredu:

Rydym yn dal i chwilio am wirfoddoldd ydyddynur gwaith o adeiladu cefnogaeth i'r TPNW o fewn grwpiau flydd. Os oes gennych ddiddordeb, da chi, cysylltwch â: brian.jones@phonecoop.coop

Y pandemig yn oedi pethau

Yn rhyngwladol, mae Covid-19 wedi oedi pob peth. Cafodd cynhadledd adolygu bum-mlynnyddol y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY) niwclear a oedd i'w chynnal ym mis Awst 2021 ei gohirio tan Ionawr 2022, a gohiriwyd cynhadledd gyntaf y TPNW tan Chwefror/Mawrth 2022 hefyd. Er na chafwyd yr un llofnod neu gadarnhad newydd i'r TPNW, gobeithio y bydd rhai gwledydd yn defnyddio'r oediad hwn i gwblhau eu prosesau cadarnhau er mwyn gallu cyfranogi yn y gynhadledd yn gynnar y flwyddyn nesaf.

HYD YN OED MWY O NIWCS

Mae Adolygiad Integredig llywodraeth San Steffan o Ddiogelwch, Amdiffyfn, Datblygu a Pholisi Tramor yn cynnig y dylid cynyddu mwyafswm ergydion niwclear y DU i 260, ac yn bygwth eu defnyddio yn erbyn gwledydd sydd heb arfau niwclear.

Polisi'r naill llywodraeth ar ôl y llall ers 1970 fu cynnal nifer arfau niwclear Prydain ond gan leihau yn raddol nifer yr ergydion niwclear a gludir gan bob arf unigol. Roedd Prydain yn barod i leihau nifer yr ergydion i 180 erbyn canol y 2020au; y cynllun bellach yw cynyddu eu nifer, gan ddychwelyd at niferoedd y 1990au.

Bellach, mae'r DU yn "cadw'r hawl" i ddefnyddio arfau niwclear nid yn unig yn erbyn gwledydd sydd ag arfau niwclear, ond yn erbyn gelynydd ag arfau cemegol neu fiolegol, neu "dechnolegau newydd a allai fod ag effaith gymharol", neu wledydd sy'n "symud i gyfeiriad sicrhau arfau niwclear."

Torri'r gyfraith ryngwladol

Heriwyd cyfreithlondeb polisi diwygiedig Prydain yn syth. Dywedodd Swyddfa Ysgrifennydd Cyffredinol y

CU, Antonio Guterres, fod penderfyniad y DU yn groes i'w rhwymedigaethau o dan Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Ymlediad niwclear (CAY) – mewn geiriau eraill, mae'n anghyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol.

O dan Erthygl VI, mae llofnodwyr yn ymrwmo i "fwrw ymlaen yn ddidwyl i negydu ar fesurau effeithiol" tuat at ddarfogi. Mae'r CAY yn syml iawn mewn gwirionedd – mae'n mynnu bod gwledydd sydd ag arfau niwclear yn darfogi, a bod rhai sydd hebddynt yn peidio â'u caffael.

Nid yw penderfyniad Prydain i gynyddu ei harfogaeth niwclear yn rhywbeth y gallwn ei dderbyn. Mae'n anghyfreithlon ac yn anfoesol – a meddyliwch, da chi, beth ellid ei wneud â'r £8,300 a mwy y funud mae'r DU yn ei wario ar arfau niwclear!

BRIAN JONES



Standin 'Nyrssys nid Niwcs', Bangor Mis Mehefin

40 MLYNEDD ERS YMDAITH GREENHAM

Cadeirydd CND Cymru, JILL EVANS, yn datlu dau ddeugain-mlwyddiant pwysig

Roedd y flwyddyn 1981 yn un dyngedfennol i fudiad heddwch Cymru. Roedd grwpiau CND lleol yn ymddangos ledled y wlad ac yn trefnu gorymdeithiau, cyfarfodydd cyhoeddus a deisebau. Cyhoeddwyd *Protect and Survive*, canllaw llywodraeth y DU ar sut i wneud ein cartrefi a'n teuluoedd "mor ddiogel â phosibl o dan ymosodiad niwclear" y flwyddyn flaenorol. Ei awgrym oedd y gallem oroesi trwy gysgodi yn y twll dan grisiau! Fe'i dilynwyd yn gyflym gan bamffled rhagorol CND, *Protest and Survive*, gan yr hanesydd a'r ymgyrchydd heddwch EP Thompson, sy'n datgelu realiti rhyfel niwclear a thwyll creulon amddiffyn sifil.

Menywod dros Fywyd ar Ddaear

Roedd ofn gwirioneddol bod rhyfel niwclear ar fin digwydd, a bu pobl yn protestio yn eu cannoedd o filoedd. Ysgogodd y cyhoeddiad bod 96 o daflegrau Cruise yr UD i gael eu lleoli yng



Baner wych o waith menywod Greenham o Landrindod

ngwersyll yr Awyrlu ar Gomin Greenham yn Berkshire orymdaith arall a arweiniodd at greu gwersyll heddwch a aeth yn symbol byd-eang.

O dan faner Menywod dros Fywyd ar y Ddaear, ymadawodd menywod, plant a rhai dynion â Chaerdydd ar ddiwrnod poeth o Awst i gerdded i Greenham – a minnau yn eu plith. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach gallwn ddiolch i'r holl fenywod a fu'n rhan o'r brotest hynod, ddewr ac ysbrydoledig hon a lwyddodd yn y pen draw i waredu'r Comin o'i arfau niwclear erchyll ac adfer y tir i'r bobl

Mae'r mudiad heddwch yng Nghymru wedi'i wreiddio yn y gymuned, a dyna'i nerth. Roedd yna fenywod Greenham ym mhob tref a phentref. Doedd rhai ohonynt erioed wedi bod i'r gwersyll ond gallent fod yn rhan o'r brotest ar lefel leol.



Yn 1981 cerddodd menywod o Gaerdydd i safle niwclear Brawdy rhwng Mai a Mehefin, ac ym mis Awst o Gaerdydd i Greenham.



SEFYDLU CND CYMRU

Sefydlwyd CND Cymru yn ffurfiol yn y Drenwydd ym mis Medi 1981. Daeth y grwpiau CND gweithgar iawn a oedd eisoes yn bodoli ledled Cymru ynghyd i ffurfio corff cenedlaethol i gydlyn ac atgyfnerthu eu gwaith. Fe'i crewyd oherwydd bod ei angen.

Ni ellid cael amlygiad mwy o'i lwyddiant na'r datganiad tirnod ym 1982 bod Cymru'n wlad ddi-niwclear, gyda chefnogaeth pob un o'r wyth Cyngor Sir ar y pryd (*gweler rhifyn nesaf Heddwch*).

Roedd CND Cymru ym mhob man, yn union fel roedd menywod Greenham ym mhob man, a'n baneri trawiadol a'u symbol cennin Pedr yn ysbrydoliaeth i bawb a ymgyrchai dros heddwch, cyfiawnder a dyfodol cynaliadwy.

Yn y 40 mlynedd ers hynny, rydym wedi caru a cholli llawer o bobl a brofai mor wir yr honiad bod Cymru'n genedl heddgarol. Fel un a fu'n Gadeirydd CND Cymru ddwywaith yn ystod y cyfnod, dwi byth yn peidio â synnu at ymrwymiad, angerdd a dewrder ein gweithredwyr.

Wrth ddathlu ein pen-blwydd, ein hunig ofid yw bod ein hangen ni o hyd – na ddigwyddodd diarfogi niwclear eto. Felly – dydyn ni ddim yn mynd i nulle!

heddwethredu:

TAITH GERDDED Y 40-MLWYDDIANT O GAERDYDD I GREENHAM

Fenywod Cymru, dewch i gefnogi, da chi! Mae Menywod Greenham ym Mhobman yn dathlu'r 40 mlynedd ers i fenywod gerdded o Gymru i sefydlu gwersyll heddwch y tu allan i RAF Comin Greenham. Byddant yn gorffen y dathliadau pen-blwydd trwy ail-greu'r ymdaith hanesyddol hon, gan adael Caerdydd ddydd Iau 26 Awst 2021 a chyrraedd Greenham ddydd Gwener 3 Medi am benwythnos o ddathlu! Bydd taith feicio ddeuddydd hefyd ddydd Iau 2 Medi a dydd Gwener 3 Medi. Am fwy o wybodaeth, gweler <https://buff.ly/3fvl7h> Ar gyfer Gweplyfr, ewch i <https://www.facebook.com/110205519001766/posts/4215299261825684/>

(Am becyn i'r wasg, gweler:

https://docs.google.com/document/d/1kqRfwhd7U35TxibgpGZD2bRbKmgJHWYeMQGMJtVa_6E/edit?ts=60847ecc#)

“Rydym yn Covid-ddiogelu a bydd gweithgareddau ar-lein os bydd rhaid – ond gobeithiwn ymdeithio, ferched, ymdeithio!”



Côr Cochion

CND Cymru – 40 mlynedd o lefaru'r gwirionedd wrth y grymus: Côr Cochion yn protestio yn uwchgynhadledd NATO yng Nghymru, Medi 2014

LLWYBR DI-NIW CLEAR TUAG AT COP 26

*Mae Cynhadledd Newid Hinsawdd y CU 2021 ('COP 26') i'w chynnal yn Glasgow fis Tachwedd yma. Ond mae addewidion llywodraeth y DU yn rhai gwag meddai **LINDA ROGERS**, ac yn anghydnaws â'i pholisïau niwclear sifil a milwrol.*

Yng Nghytundeb Hinsawdd Paris 2015, addawyd swm o \$100bn y flwyddyn gan y cenhedloedd cyfoethog i helpu gwledydd sy'n datblygu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Erbyn 2018, dim ond \$79 biliwn o'r swm hwnnw a sicrhawyd, ac roedd y rhan fwyaf o gynnydd y pedair blynedd flaenorol ar ffurf benthyciadau. Mae perygl y bydd hynny'n cynyddu dyled gwledydd sy'n datblygu, yn enwedig yng nghyd-destun argyfyngau economaidd yn deillio o bandemig Covid-19. Mae llywodraethau'n tueddu i drin gweithredu ar yr hinsawdd fel cam i gynyddu eu dylanwad a'u hunan-les.

Cyn uwchgynhadledd y G7 yng Nghernyw fis Mehefin, galwodd Antonio Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, ar wledydd i gyflawni eu haddewidion. Dywedodd hefyd ein bod mewn perygl o “golli cyfle, yn anfaddeuol” trwy beidio â dod allan o'r pandemig ag economeg werdd newydd i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd

Amser yn dirwyn i ben

Mae gan lywodraeth y DU gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer economi werdd, gyda'r nod o garbon sero net erbyn 2050. Fodd bynnag, honnodd Meg Hillier, Cadeirydd y Pwyllgor

Cyfrifon Cyhoeddus, nad oes gan y llywodraeth fawr o syniad sut i gyflawni'r nodau hyn na chynllun cydlynol. Ar y 24ain o Fehefin, adleisiwyd y pryderon hyn gan Chris Stark, Prif Weithredwr y Pwyllgor Newid Hinsawdd a rybuddiodd am y gagendor rhwng ymrwymiadau'r llywodraeth a gweithredu ar lawr gwlad.

Cysylltiadau niwclear sifil a milwrol

Ond beth a olygir wrth “ynni gwyrrdd”? Mae llywodraeth y DU wedi gwario llawer o egni a £18 biliwn o arian trethdalwyr ar hyrwyddo Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bach (SMNRs), gan honni y gall y dyfeisiau hyn (nad ydynt yn bod eto) gynhyrchu ynni yn rhatach ac yn fwy diogel na gorsafoedd pŵer niwclear confensiynol, a

lliniaru rhywfaint ar y newid
hinsawdd. Mae adroddiad
diweddar Jonathon Porritt, cyn-
Brif Weithredydd Cyfeillion y
Ddaear a'r Comisiwn Datblygu
Cynaliadwy, yn wfftio'r
honiadau hyn.

Mae Jonathon Porritt yn mynegi penbleth lwyr parthed pam ma'r pleidiau gwleidyddol mwy, gyda chefnogaeth yr undebau llafur, yn parhau i gefnogi ynni niwclear. Y mae, fodd bynnag, yn nodi'r cysylltiad sy'n parhau i fod rhwng pŵer niwclear ac arfau niwclear.

Amlygir yr un cysylltiad yn adroddiad Prifysgol Sussex, *Shining a light on the UK's nuclear deterrent*. Ynddo mae Andy Stirling, Athro Polisi Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a'r Cymrawd Ymchwil Dr Phil Johnstone, yn nodi, wrth i



Dydy cynigion ar gyfer gorsafoedd niwclear newydd ddim yn ystyried y codiad lefelau'r môr a'r erydu arfordirol a raqwelir

bŵer niwclear ddirywio ledled y byd, ei bod hi'n drawiadol faint o'r gwledydd sy'n dal i roi cefnogaeth gostus iddo sydd naill ai'n wledydd ag arfau niwclear eisoes neu'n rhai sy'n dymuno eu caffael. O gasgliadau papurau cynnar, i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, mae eu hymchwil yn codi cwestiynau pwysig am atebolrwydd, tryloywder a rôl y diwydiant niwclear yn y dyfodol mewn byd cyfnewidiol.

Tra'n honni bod yn rhaid wrth ynni niwclear er mwyn cyrraedd 'carbon sero net', mae gwledydd sydd ag arfau niwclear cyfredol yn dal i hyrwyddo rhaglenni niwclear sifil er mwyn cynnal cronfa o arbenigedd niwclear ar gyfer ymchwil filwrol ac i dalu treuliau rhaglenni milwrol fel olynnydd i Trident. Mae gwefan Rolls-Royce wedi brolio'n agored mai nod rhaglen SMNR y cwmni yw bod o fudd i'r sector sifil a'r sector milwrol ill dau.

'Gwyrddgalchu' niwclear? Dim diolch!

Mae dadleuon lu pam nad ynni niwclear yw'r ateb i'r argyfwng hinsawdd. Yn gyntaf, mae'n dargyfeirio buddsoddi oddi wrth ynni amgen. Nid yw wraniwm yn adnewyddadwy, ac mae cloddio amdano yn hunllef wenwynig i



XR Gogledd Cymru

Gwyliaid Cochion XR yn cyhoeddi rhybudd llifogydd, Penmaenmawr. Mae'r argyfwng hinsawdd yma, nawr.

lawer o gymunedau brodorol. Mae'r cylch niwclear cyfan, pan gynhwysir mwyngloddio, cludo, adeiladu a datgomiynu, ymhell o fod yn garbon-isel. Mae codi gorsafoedd niwclear yn waith diarhebol o araf, gydag oedi mynych a gorfario anferth. P'r un bynnag, mae'r genhedlaeth niwclear newydd, fel y rhaglen SMNR, yn rhy bell ar ei hôl hi o ran datblygu i allu cyrraedd targedau brys. Mae 'gwaredu' gwastraff niwclear yn parhau i beryglu'r amgylchedd am 10,000 o flynyddoedd a mwy.

"Gwariodd y gwledydd ag arfau niwclear swm aflednaïa o arian ar arfau dinistr torfol anghyfreithlon yn 2020, tra bod y rhan fwyaf o wledydd yn cefnogi gwaharddiad byd-eang ar arfau niwclear. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Mae cwmnïau, lobiwyr a melinau trafod yn rhan o hyn oll ac yn haeddu cael eu dal yn atebol am eu rhan mewn adeiladu a ffurfio byd ag ynddo fwy na 13,000 o arfau marwol. Rhaid i ni fynnu eu bod yn rhoi'r gorau iddi."

Adroddiad ICAN, Complicit: 2020 Global Nuclear Weapons Spending

Nid dim ond gwleidyddion San Steffan sydd wrthi'n 'gwyrddgalchu' ynni niwclear ond Bae Caerdydd hefyd. Ym mis Chwefror 2021 llofnododd llywodraeth Cymru femorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymrwymo £900 miliwn i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer Sizewell C pe bai'n digwydd.

Beth ellir ei wneud?

Mae'r gwaith priodol sydd ei angen i gefnogi'r diwydiannau â'r gallu mwyaf i liniaru newid yn yr hinsawdd yn cael ei danseilio gan bolisiâu niwclear sifil a milwrol Boris Johnson. Dydyn ni ddim yn buddsoddi i achub y byd, ond i'w ddinistrio. Cyn COP 26, rhaid galw am ddadleuon agored, cynulliadau dinasyddion a sgysiaau gydag undebau llafur ar y cwestiynau hyn, ar y cyd â'n partneriaid rhyngwladol a chyrrff anlywodraethol.

NID YMASIAD YW'R ATEB

Mae Awdurdod Ynni Atomig y DU (UKAEA) yn arfaethu datblygu adweithydd ymasiad niwclear newydd. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi hen orsaf bŵer Aberddawan ger y Barri fel ymgeisydd. Mae Cyngor Sir Benfro yntau wedi cyflwyno cynnig ar gyfer safle ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau. Dydy DR IAN FAIRLIE ddim yn argyhoeddedig, o bell ffordd.

Mae llywodraeth y DU yn cynnig adweithydd ymasiad – y Tokamak Sfferaidd ar gyfer Cynhyrchu Ynni (STEP) – ar gyfer ein hanghenion ynni. Fersiwn llai o faint fyddai hwn o brototeip aflwyddiannus y Tokamak (JET) yn Culham, Swydd Rydychen. Nid yw'n eglur yn y dogfennau swyddogol pam y disgwyliad i'r project STEP weithio er bod ei brototeip wedi methu. Ond mae'r llywodraeth yn bwriadu datblygu safle gweithredol ar gyfer adweithydd STEP. Y cynllun yw i Ysgrifennydd Busnes y DU ddewis safle ar gyfer prototeip, ar sail argymhellion UKAEA, erbyn 2024 (<https://ccfe.ukaea.uk/research/step/>). Fodd bynnag, does gan ateb gwrthioli newydd y llywodraeth nemor ddim i'w wneud â'n hanghenion ynni, dim ond â thechno-freuddwydion byrbwyll Boris Johnson. Y tebygrwydd yw y bydd yn ymuno â rhestr faith methiannau Johnson, ar ôl maes awyr Thames Gateway, car cêbl Awyrennau'r Emirates, y bws cymalog, pont Ardd Afon Tafwys, ac ati. Ond y tro hwn bydd rhaid i'r trethdalwr dalu biliynau yn hytrach na miliynau.

Beth yw ymasiad niwclear?

Proses beryglus yw ymasiad lle caiff hydrogen ymbelydrol (tritiwm) ei falu i mewn i fath arall o hydrogen (dewteriwm) ar dymheredd a phwysau

enfawr y tu fewn i blasma, i ryddhau llawer o ymbelydredd a rhywfaint o wres. Mae'r broses yn digwydd yn ein Haul ... ond mae'r Haul wedi'i leoli'n ddiogel 150 miliwn km i ffwrdd.

Mae problemau technegol aruthrol gydag ymasiad. Yn gyntaf rhaid cael yr adwaith dewteriwm-tritiwm i weithio'n barhaus: maen nhw wedi gwneud hyn yn y cyfleuster JET arbrofol yn Culham am eiliad neu ddwy. Yna mae'n rhaid ei gael i ryddhau mwy o egni nag a ddefnyddir wrth gynhyrchu'r adwaith: fu JET erioed yn agos at hynny. Yna byddai'n rhaid dal yr egni a ryddhawyd. Dydy hyn erioed wedi digwydd yn llwyddiannus hyd yma Y cynllun yw amgylchynu'r siambr plasma â lithiwm tawdd. Ond mae'r beirianeg yn wirioneddol annymunol: gwactod uchel ar un ochr, lithiwm tawdd ar yr ochr arall, a biliynau o niwtronau egni-uchel yn peledu'r wal bob eiliad.

Yna mae'n rhaid iddyn nhw redeg lithiwm tawdd poeth trwy gyfnewidwyr gwres i godi stêm ar gyfer tyrbin. Mae profiad gyda chyfnewidwyr gwres o'r fath – sodiwm tawdd ar y naill ochr, dŵr ar yr ochr arall – wedi bod yn drychinebus ledled y byd. Y broblem yw bod lithiwm yn fflamadwy dros ben, ac yn ffrwydrol mewn cysylltiad â dŵr neu aer. A phe bai yn gweithredu



Cyn-safle Aberddawan: o danwydd ffosil i ymasiad niwclear?

byth, câi llawer iawn o nwyon ymbelydrol ac anwedd dŵr ymbelydrol ei ryddhau i'r amgylchedd lleol.

Daw adweithydd ymasiad arfaethedig y llywodraeth â'r addewidion arferol o ynni rhad a glân i'n symud i economi di-garbon, heb fawr o wastraff ymbelydrol a dim sgil-gynhyrchion plwtoniwm ar gyfer arfau niwclear. Ond mae gan y llywodraeth hon hanes difrifol o addewidion gwag ... pa mor ddilys yw'r haeriadau hyn?

Y gwir amdani yw y byddai adweithydd ymasiad, pe câi byth ei weithredu, yn cynhyrchu sgil-gynhyrchion ymbelydrol sy'n bell o fod yn ddiniwed. At hynny, byddai'r rhan fwyaf (tua 80 y cant) o'r egni a ddoi ohono ar ffurf niwtronau ynni-uchel a fyddai'n arwain at ddfrod strwythurol, llawer iawn o wastraff ymbelydrol, a'r rheidrwydd am gysgodi biolegol helaeth i ddiogelu gweithwyr a'r cyhoedd cyfagos.

Gellir hefyd ystyried gorsafoedd ymasiad fel ymarfer enfawr mewn ailgylchu tritiwm, a phe bai gorsaf o'r fath byth yn cael eu hadeiladu, câi llwyth anferth o dritiwm ymbelydrol (~ 1018 becquerel y flwyddyn) ei ryddhau i'r atmosffer a thrwy gyfrwng y dŵr oeri, gan halogi pob ardal lawr i'r afon o'r orsaf. Cred rhai gwyddonwyr niwclear bod tritiwm yn niwclid "gwan", ond y gwrthwyneb sy'n wir. Pe bai ffrwydrad a/neu dân (mae tritiwm a dewteriwm yn fflamadwy), fe ollyngid hyd yn oed mwy o ymbelydredd, a fyddai'n gyfystyr â thrychineb niwclear.

Byddai adweithyddion ymasiad hefyd yn dioddef o lawer o'r problemau mawr sy'n gysylltiedig ag adweithyddion ymholliad, yn cynnwys gofynion oeri graddfa-fawr, costau adeiladu a gweithredu uchel, ac amserau adeiladu maith, yn ymestyn i ddegawdau. Byddai'n rhaid adnewyddu'r strwythur, a ddfrodid gan belediad y niwtronau, yn gyson, gan arwain at lawer iawn o wastraff ymbelydrol nad oes modd delio ag ef yn gyfredol yn y DU.



Mae'r haul yn cynnig ymasiad niwclear – ond mewn pellter diogel.

Beth yw barn yr arbenigwyr?

Yn y gorffennol, mae gwyddonwyr wedi bod yn amheus o ymasiad niwclear, gan gynnwys llawer o wyddonwyr yr UD. Yn ddiweddar, sgrifennodd Dr Daniel Jassby a weithiodd am 25 mlynedd ar ffiseg plasma a chynhyrchu niwtronau yn gysylltiedig ag egni ymasiad yn Labordy Ffiseg Plasma Princeton, ddwy erthygl wybodus ar y llw o broblemau gydag ymasiad niwclear ar gyfer y *Bulletin of Atomic Scientists* (y cyfnodolyn o'r UD a roes i ni 'Gloc Dydd y Farn'). Ei gasgliad yw: "Pan ystyriwch y cawn ynni solar a gwynt am ddim, byddai dibynnu ar adwaith ymasiad yn ffôl."

Felly, ni wnâi ymasiad niwclear ddarparu ynni rhad, glân, diogel nac iach a byddai'n cwtogi ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer ynni adnewyddadwy mwy diogel a rhatach.

CYFEIRIADAU

"Fusion reactors: Not what they're cracked up to be" – gan Daniel Jassby, 19 Ebrill 2017:

<https://thebulletin.org/2017/04/fusion-reactors-not-what-theyre-cracked-up-to-be/>

"ITER is a showcase ... for the drawbacks of fusion energy" – gan Daniel Jassby, 14 Chwefror 2018:

<https://thebulletin.org/2018/02/iter-is-a-showcase-for-the-drawbacks-of-fusion-energy/>

Mae **DR IAN FAIRLIE** yn Is-gadeirydd CND y DU. Bu'n siaradwr cyhoeddus a chynghorydd cyson i'r ymgyrch i atal Wylfa B.

CODI LLAIS CRYF DROS HEDDWCH YNG NGHYMRU A THU HWNT

Problem barhaol sydd gan y mudiad heddwch yw'r ffaith ein bod yn llais lleiafrifol sy'n dueddol o gael ei lethu gan y brif ffrwd. Mae'n gyfnodau, fodd bynnag, lle medrwn godi ymwybyddiaeth am y materion sydd o gonsyrn i ni a'u dod at sylw'r cyhoedd. Un o'r rhain yw'r cyfnod yn arwain at etholiadau, lle mae ymgeiswyr yn fwy tebygol o wrando ar safbwyntiau eu hetholwyr a lle mae'n gyfleoedd i holi a dadlau.

Wrth gofio hyn, lansiodd Cymdeithas y Cymod Fannffesto Heddwch yn arwain at etholiadau mis Mai yng Nghymru, dogfen sydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rôl heddwch yn ein cymdeithas.

Mae'r Maniffesto yn cynnwys wyth cam clir a chadarnhaol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i osod ein cenedl ar lwybr tuag at ddyfodol mwy heddychlon a gwyrddach er lles Cymru a'r byd. Yr wyth pwynt yw:

1. Militariaeth yn ein hysgolion: – galwad i wahardd recriwtio pobl ifanc dan 18 i'r lluoedd arfog yn ein hysgolion;
2. Y Cwricwlwm Newydd – galwad i integreiddio addysg heddwch i'r cwricwlwm;
3. Hyrwyddo Heddwch – bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ac ariannu datrys gwrthdaro di-drais yn y gweithle;
4. Arallgyfeirio'r Diwydiant Arfau – galw am fuddsoddi mewn swyddi gwyrdd yn lle cynhyrchu arfau;
5. Amgueddfa Filwrol – galw ar Lywodraeth Cymru i wrthod cynlluniau am Amgueddfa Meddygaeth Filwrol ym Mae Caerdydd;
6. Cymru a'r Byd – gofyn am onestrwydd am y ffordd y mae cynhyrchu arfau yn arwain yn uniongyrchol at ddioddefaint mewn rhannau o'r byd a sicrhau bod heddwch wrth wraidd strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru;
7. Gwahardd Arfau Niwclear – gofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear mewn egwyddor; a
8. Dad-filitareiddio'n tir – galwad i adleoli'r Fyddin o diroedd Cymru a datblygu'r tir at ddibenion amgen.

Dim ond y cam cyntaf yw cynhyrchu Maniffesto, wrth gwrs. Mae Cymdeithas y Cymod yn galw ar

i bawb sydd yn gweithio dros heddwch i gefnogi'r Maniffesto a chyfathrebu gydag aelodau'r Senedd am ei ofynion. Dechreuwyd ar y proses hwn ar 26 Mai pan gynhaliwyd webinar gan Grŵp Heddwch ac Addysg Heddwch y Crynwyr yng Nghymru oedd yn canolbwyntio ar y Maniffesto. Daeth 35 o bobl ynghyd yn y cyfarfod yn cynrychioli mudiadau heddwch ledled Cymru. Dyma'r cyntaf o gyfres o webinarau a fydd yn galluogi pobl i ddod at ei gilydd, trafod materion heddwch allweddol a phenderfynu ar gamau gweithredu y medrwn gymryd ar y cyd.

Mae testun llawn y Maniffesto i'w weld yma:

<https://www.cymdeithasycymod.cymru/wp-content/uploads/2021/03/Maniffesto-heddwch.pdf>

JANE HARRIES

HEDDYCHWYR IFANC CYMRU 2021

Llongyfarchiadau mawr i'r 18 o ysgolion 'Walk the Global Walk' Sir Gaerfyrddin a enillodd tlws Heddychwyr Ifanc Cymru am eu gwaith rhagorol ar Nod Datblygu Cynaliadwy 16 – Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf eleni. Derbyniodd Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin y tlws ar eu rhan.



CYNGERDD 'GWLAD Y GÂN'

*Yn dilyn dathliad CND Cymru o Waharddiad Byd-eang TPNW fis Ionawr diwethaf, trefnodd yr ysbrydoledig **FRANKIE***

ARMSTRONG gyngerdd arall i'w ffrydio ar y 25 Mehefin. Rhannwyd y cyfraniadau tocynnau rhwng CND Cymru a Cherddorion dros Heddwch a Diarfogi.

Roedd y gerddoriaeth yn llawen ac yn drist, yn dwyn i gof yr hiraeth a ddisgrifir yn y cyntaf o ganeuon gwerin Cymraeg hyfryd Stacey Blythe, a ganwyd ar y delyn. Archwiliwyd hanes hir diwylliant Cymru. Perfformiwyd Pais Dinogad, cân mam o'r seithfed ganrif i'w mab bach, gan Bragod. Fe wnaeth y storïwr Michael Harvey ein diddanu â chwedl hynafol y bardd Taliesin a'i ymgawdoliad hudol

Ar gyfer ein hoes ein hunain, cyflwynodd Laura Bradshaw fideo gwyb o gân a dawns o Gaerdydd, yn cynnwys Côr

Un Byd sy'n gweithio gyda chanolfan Oasis ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Perfformiwyd pob math o ganeuon gan Frankie, Laura a Pauline Down, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Bread and Roses: clywsom y gân wleidyddol gynhyrfus o'r un enw, teyrnged deimladwy i'r diweddar Rosie Waite, sianti

fôr gan Laura a'i merch, a chân Pauline am Gwm George ym Mro Morgannwg. Canodd Frankie am ei mam-gu a aned yng Nghasnewydd a soniodd am ddeiseb Heddwch y Menywod ym 1923-24, yn ogystal ag ymdaith 1981 o Gaerdydd i Greenham. Diolch yn fawr i bawb a berfformiodd ac a ymunodd â ni.



Bragod

Bragod: Bob Evans yn cyfeilio i Mary-Anne Roberts ar y crwth a'r lyrrallun

UNA a'r TPNW

Mewn cyfarfod ar-lein ym mis Ebrill a drefnwyd gan gangen Caerdydd o Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig (UNA), rhoddodd Cadeirydd CND Cymru, Jill Evans, anerchiad ar waharddiad byd-eang y TPNW, hynt y cytundeb ers mynd yn ddeddf, a'i argoelion yn y dyfodol. Bu trafod eang ar bynciau fel ymlediad a gwaddol fyf-eang profion niwclear.

Hystingau'r Senedd

Trefnodd CND Cymru, ar y cyd â Chymdeithas y Cymod, hystingau Heddwch a Chyfiawnder ar-lein cyn etholiadau'r Senedd ar 6 Mai.

Fe'i cadeiriwyd gan Stephen Thomas. Siaradodd Mabon ap Gwynfor ar ran Plaid Cymru, Ken Barker ar ran y Gwyrddion, Jackie Charlton ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol,

a Mike Hedges ar ran Llafur Cymru. Gwrthododd y Torïaid wahoddiad i gymryd rhan.

Neges yr Urdd

Bob blwyddyn ers 1922, mae Urdd Gobaith Cymru wedi anfon ei neges Heddwch ac Ewyllys Da at y byd. Eleni, lansiwyd y neges ar ffurf fideo, ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, a'r thema oedd Cydraddoldeb i Fenywod.

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



Alffa i Delta

Wrth i ni fynd i'r wasg mae'r ddadl yn poethi: cefnu ar gyfyngiadau Covid fel y dymuna San Steffan, neu'r dull mwy pwylllog y disgwylir i Drakeford a Sturgeon ei fabwysiadu? Mae amrywiad Delta yn dal i sgubo'r wlad ond ag achosion ysybyt'n parhau i fod yn isel. Yr unig wir 'ddydd rhyddid' fydd pan fydd y byd i gyd, cyfoethog a thlawd, wedi ei frechu. Rydym yn dal i fod yng nghysgod hir y pandemig, ond diolch o galon i staff rheng-flaen y GIG, i'r gofawyr, ac i'r gwirfoddolwyr brechu ledled Cymru. Gorchest hynod yn wir.

'Kill the Bill'

Mae Mesur yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd yn cynnwys ymgais ddiostur gan

lywodraeth San Steffan i gwtogi ar weithredu gwleidyddol yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad yw cyfyngu ar yr hawl i brotestio, ar amserau cychwyn a gorffen gwrthdystiadau, ar sŵn ac anghyfleustra i'r cyhoedd. Byddai y geiriad bwriadol annelwig yn rhoi tragwyddol heol i'r heddlu a'r Ysgrifennydd Cartref i ddehongli'r gyfraith fel y gwelant yn dda. Ynghyd â deddfau i amddiffyn cudd-swyddogion y wladwariaeth a gwanhau'r drefn arolwg barnwrol, mae'r mesur yn ymosodiad ar y broses ddemocrataidd.

Cynhaliwyd llu o brotestiadau ledled Cymru, yn Aberystwyth (*gwel t2*), Hwlfordd, Casnewydd a Chaerdydd. Ar Orffennaf 5, cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin y Mesur heb ddim gwerth sôn o ddadl a'i anfon nôl at yr Arglwyddi â mwyafrif o 100.

Protesio am Balesteina ledled Cymru

Ymddengys bod heddych a chyfiawnder i'r Palestinaid yn obaith mwy pellennig nag erioed yn dilyn dwysau'r gwrthdaro â llywodraeth Israel rhwng y 6 a'r 21 o Fai. Fe'i hysgogwyd gan fygythiad i droi teuluoedd Palestinaidd allan o'u cartrefi yn Nwyrain Jerwsalem, gan ymosodiad ar safle mosg al-Aqsa, a chan herian aelodau o asgell dde eithafol Israel ar ddiwedd Ramadan. Bu terfysgoedd yn ninasoedd Israel, ar y Lan Orllewinol ac yn Gasa. Cafodd rocedi eu tanio i mewn i Israel, a bomiwyd Gasa yn rwbel unwaith eto. Bu farw 13 o bobl yn Israel, tra lladdwyd 256 o Balesteinaid. Roedd ymateb yr UD yn annigonol ac yn rhy hwyr.

Cynhaliwyd protestiadau ledled Cymru – yn Llandudno, Bangor, Machynlleth, Y Drenewydd, Llanandras, Aberystwyth, Hwlfordd,

Abertawe, Pontypridd, Caerdydd, Y Barri a Chasnewydd. Roedd niferoedd mawr yn bresennol, dro ar ôl tro mewn sawl lle. Ar 11 Gorffennaf, trefnodd Atal y Rhyfel Caerdydd sesiwn ddysgu ar Balesteina ym Mharc Bute.



Ffion Jon

Protestiadau ym Mangor yn erbyn bomio Gasa. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Hywel Williams AS, Cyng Steve Collings, Dr Ben Alofs, Ben Gregory, Linda Rogers ac Ian Cuthbertson.

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



Cofio'r Troad Allan o Epynt

Chwe wythnos o rybudd a gafodd 54 o deuluoedd oedd yn ffermio'r Epynt i adael eu cartrefi.

Ym 1940 aberthwyd dyfodol cymuned Epynt i achos yr Ail Ryfel Byd ond y gobaith ddoe a heddiw yw, yng ngeiriau Waldo Williams, y **"Daw'r Wennol yn nol i'w Nyth"**.

Mae 200 o wenoliaid yn barod i hedfan o law Tanwen Wilkinson, crochenydd sy'n byw yn agos i Fynydd Epynt, i gartrefi ar draws Cymru. Am brynu gwennol? Ewch i siop ar-lein Cymdeithas yr Iaith neu ffoniwch 01766 772788



*Daw'r
Wennol
yn ôl i'w
Nyth!*

Tanwen Wilkinson

Extinction Rebellion yn creu tonnau

Aeth sawl grŵp o brotestwyr XR o Gymru i Gernyw ar gyfer uwchgynhadledd y G7, a chafodd rhai ohonynt driniaeth go galed gan yr heddlu. Cymeroedd eraill ran mewn Gweithredoedd Tonnau ar wahanol rannau o arfordir Cymru. Gallai nifer o gymunedau'r glannau – o Gasnewydd a Chaerdydd i Ynys Môn – fod o dan y môr a'i donnau cyn diwedd y ganrif, oherwydd argyfwng yr hinsawdd. Galwodd XR ar wledydd y G7 i roi blaenoriaeth i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. *Am luniau o brotest Penmaenmawr, gweler tt 6-7.*

Diwedd ar ryfel di-fudd

Bydd Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn yn 20 oed ym mis Hydref. Fe'i sefydlwyd, fel llawer o grŵpiau heddwch Cymru, mewn gwrthwynebiad i'r rhyfel yn Afghanistan. Y mis Gorffennaf yma, tynnodd milwyr yr UD a'i chynghreiriaid allan, o'r diwedd. Roedd cyfanswm y meirwon, yn cynnwys sifiliaid, yn fwy na 212,000, a 456 yn filwyr Prydeinig. Ddysgodd yr UD ddim oll o ryfel Fietnam,

na'r Prydeinwyr ddim o'u hanes imperialaidd hwythau. Roedd gwersyll Bagram yn ddjarhebol am arteithio a cham-drin carcharorion. Mae'r Taliban yn ôl ac wrthi'n meddiannu rhannau helaeth o'r wlad.

Cerflun Dinbych: degawd o brotestio

Yng nghanol Dinbych, sail cerflun o'r fforwr Henry Morton Stanley a aned yno (o dan yr enw John Rowlands, 1841-1904).

Nid cofeb o'r cyfnod hwnnw ydyw, ond cerflun modern a godwyd er anrhydedd iddo. Aeth yn destun dadl gan fod HM Stanley yn asiant i frenin Gwlad Belg, Leopold II, a redai Wladwriaeth Rydd y Congo fel eiddo personol, â chreulondeb eithriadol. Ers 10 mlynedd bu'r cerflun yn destun seremoni 'ddadorchuddio' ac 'angladd' flynyddol, celf berfformio wleidyddol gan Wanda Zyboriska. Cyflwynwyd y cyd-destun hanesyddol gan Selwyn Williams, Howard Huws a Dr Salamatu Fada. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau. Cynhelir digwyddiad 2021 ddydd Sadwrn 14 Awst: cwrdd 15 munud o flaen llaw ym maes parcio Ffatri Ward islaw Neuadd y Dref.

Llew Smith MP 1944 - 2021

Roedd Llew Smith yn un o lond dwrn o ASau ac ASEau Llafur a gefnogai CND Cymru 100 y cant am ddegawdau – yn cynnwys pan nad oedd ein hachos yn boblogaidd.

Fel ASE De-ddwyrain Cymru o 1984, rhoddodd dragwyddol heol i'w staff cefnogol – Paul Flynn (AS Gorllewin Casnewydd yn ddiweddarach) a Dr David Lowry – i ymgyrchu dros ddiafogi niwclear, yn fwyaf nodedig trwy greu llyfrgell o adnoddau fideo a deunyddiau eraill at ddefnydd CND a grwpiau heddwch eraill. Roedd yn adnodd amhrisiadwy i lawer o grwpiau ymgyrchu de-ddwyrain Cymru yn nyddiau cynhyrfus ymgyrchu gwrth-niwclear yr oes honno.

Yn ddiweddarach, pan aeth Llew yn AS, gan olynu Michael Foot, un o gyd-sylfaenwyr CND, fel AS Blaenau Gwent (Glyn-ebwy) ym 1984, treiddiodd ei gwestiynu ar faterion niwclear i graidd polisïau'r llywodraeth; dywedir iddo achosi mwy o oriau o ymchwil (a thaflu llwch i lygaid) gan weision sifil i gyfiawnhau polisïau niwclear y llywodraeth na'r un AS arall.

Ynghyd â Jeremy Corbyn (a siaradodd yn ei angladd), gofynnodd Llew fwy o gwestiynau ar faterion niwclear, heddwch a diafogi nag unrhyw AS arall, gan barhau i wrthwynebu polisïau o blaid arfau niwclear a rhyfel.

Pan gwrddais â Llew gyntaf, dros 40 mlynedd yn ôl, roedd yn diwtor MAG ac wedi ei drwytho yn hanes mudiadau llafur – yn enwedig eiddo cymunedau glofaol de Cymru. Roedd yn ymarweddu fel gweithredwr, bob amser yn bresennol i gefnogi achos blaengar ond heb geisio hunan-gyhoeddusrwydd. Felly y bu tan y diwedd.

Doedden ni ddim yn cytuno ar bopeth – ni allai dderbyn datganoli o unrhyw fath, gan gredu,



fel y gwnai, bod ymwybyddiaeth genedlaethol yn achos cyfrannol – ac nid yn ganlyniad – gwrthdaro. Ond doedd ei ddadlau ddim fel ffraeo cas, Gweplyfraidd yr oes hon. Roedd bob amser yn agored i gael dadl resymegol, hynaws.

Yn ei olygyddol yn dilyn ei farwolaeth, meddai'r *South Wales Argus* (nad oedd bob amser o'i blaid): “ceir pobl anrhydeddus mewn gwleidyddiaeth sy'n sefyll dros yr hyn y maent yn credu ynddo ac sy'n gweithio'n galed dros y bobl y maent yno i'w cynrychioli.”
“Roedd Llew Smith yn wleidydd o'r fath.”

Rhannai ef a'i wraig Pam gariad at jazz – y tro diwethaf i mi ei gweld oedd yng Ngŵyl Jazz Pont-y-pŵl lle'r oedd Humphrey Lyttelton yn brif atyniad. Wedi i Pam farw, crynhodd Llew un arall o'u cyd-ddiddordebau mewn arddangosfa, *Politics, Protest and the Christmas Card* – a gyhoeddodd fel llyfr yn ddiweddarach, *Glad Tidings of Struggle and Strife* (2012). Mae'n syml, yn gynnwys, ac i'r pwynt – ac yn nodweddiadol ohono.

JOHN COX

Pauline Cutress 1929 - 2020

Roedd Pauline yn siosialydd a heddychwraig ar hyd ei hoes. Fe'i ganed ym Mryste a dechreuodd ymwneud gwleidyddiaeth tra'r oedd yn y bryfysgol yno. Roedd yn aelod o CND o'r cychwyn cyntaf – ond methodd yr orymdaith gyntaf i Aldermaston gan ei bod yn feichiog. Cerddodd ym 1959, fodd bynnag, yn gwthio coets! Trwy gydol ei hoes bu Pauline wrthi'n gweithredu'n wleidyddol, yn ymgyrchu a chodi arian: yn y Blaid Lafur, CND ac Amnest Rhyngwladol, yn cefnogi'r glowyr ym 1984, yn rhedeg Grŵp Gweithredu Pensïynwyr yn Hinkley, ac yn

ddiweddarach yn gweithio gyda Chynulliad y Werin yn erbyn Llymder yn y Rhyl.

A hithau eisoes yn ei 80au, gyda'i ei hegri di-baid a'i hangerdd dros gyfiawnder roedd Pauline yn un o drefnwyr allweddol Gŵyl Heddlw CyW y Rhyl; gyda siaradwyr fel Bruce Kent, denodd gynulleidfaoedd o bob rhan o ogledd Cymru.

Rhwng ymgyrchoedd, llwyddodd Pauline i briodi Joe, y cyfarfu ag ef yn y brifysgol. Cawsant dri o blant, Paul, Anne a Roger. Ysywaeth, fe golodd hi Joe a Roger yn rhy gynnar, pan gollasant eu brwydrau gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae'n gadael



Pauline ac Anne a'u plant, sy'n falch iawn o'i hetifeddiaeth ac sydd ag atgofion hyfryd (ac ysmala) ohoni, fel llawer o'i chymdeithion yn y mudiad heddwch.

ANNE CUTRESS

ADOLYGIAD

COFIO'R WYLFA

Emlyn Richards

Gwasg Carreg Gwalch 2021
ISBN 978-1-845277901
Clawr meddal, 150p. £8.50
Welsh language

Wrth olrhain hanes ardal Y Wylfa, mae Emlyn Richards, awdur Cofio'r Wylfa yn ein hatgoffa o'r gymuned gref a'r amgylchedd arbennig a nodweddi'r ardal arfordirol hon o Ogledd Môn hyd at ganol y ganrif diwethaf. Wedi'r llywodraeth a'r Bwrdd Canolog Trydan Cenedlaethol bwrw ymlaen i ddatblygu "yr orsaf niwclear fwyaf yn y byd" yn Ionawr 1964, newidiodd pethe am byth. Roedd trwch y boblogaeth, ynghyd a'r gwleidyddion, yn ymfalchio yn y datblygiad, a'r un oedd yr hanes

i ddatblygu Wylfa B y ganrif hon er gwaetha mai "weithred o ddinistr cyn bod unrhyw fuddsoddiad na hawl cynllunio ar gael!" Ond yr addewid am swyddi a orfu ac a denodd y gefnogaeth.

Ceir cyflwyniad difyr i'r cymeriadau a lywiodd y gymuned glos – tyddynwyr, bonheddwyr o ffermwyr, cyfeillion agos â'r Tywysoges Victoria a chreuodd ardd ysbennnydd y Cestyll, a Rosina Buckman, cantores opera o Seland Newydd. Roedd hi'n byw yn y Galan Ddu, a fe'i chladdwyd ar safle'r orsaf. Pan ymddangosodd 'Ysbryd' a ddychrynodd chwech o Wyddelod, ac atal gwaith yn un o'r twneli, y cred yn lleol oedd amhariad ar fan claddu'r deulu oedd yn gyfrifol!

Dymchwelwyd nifer o dai bach a mawr ond nid yw'r dinistr i'r gymuned na'r amgylchedd wedi bod heb her a mudiadau fel PAWB, safiad teulu fferm Caerdegog, ymweliad Naoto Kan, cyn Brif Weinidog Siapan wedi ceisio yn gyson i gynnig polisïau amgen a theg ar gyfer gwaith i'r gymuned. Mae'r awdur yn cloi wrth son am gais WYLFA NI i Hitachi ddychwelyd ei 700 acer i'r gymuned ac i'r ynys benderfynu ar bennod nesaf hanes Penrhyn y Wylfa. Mae hanes yn darlunio pwysigrwydd y berthynas rhwng pobl a lle a does dim modd, medde fo, adfer creadigaeth natur fel yr oedd ar ôl ei ddifwyno.

Mae hyn yn stori oesol.

CARL CLOWES

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



gwefan: www.cndcymru.org

e-bost: heddwch@cndcymru.org

trydar: @cndcymru

instagram: @cndcymru

gweplyfr: <https://www.facebook.com/cndcymru/>

CYSYLLTIADAU:

Cadeirydd: *Jill Evans* [Rhondda]

jillrhondda@yahoo.co.uk

07803 902 401

Ysgrifennydd Cenedlaethol:

Bethan Siân [Aberystwyth]

bsj11@outlook.com

07933 791207

Trysorydd ac Aelodaeth:

Michael Freeman

michael.freeman9@btinternet.com

CND Cymru, 9 Rhiw Briallu, Llanbadarn

Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

John Cox [Abersychan]

drjohncox121@gmail.com

01495 773495

Brian Jones [Pontardawe]

brian.jones@phonecoop.coop

01792 830330

Duncan Rees [Glannau Dyfrdwy]

Duncan.rees01@gmail.com

07534 975461

Philip Steele [Ynys Môn]

phil_steele@btinternet.com

01248 490715

HEDDWCH

Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgrych Ddiarfog Niwclear yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau at y golygydd.

Golygydd: Philip Steele

phil_steele@btinternet.com 01248 490715

Cyfieithydd: Siân Edwards

sian@siandefynnog.cymru

Cynhyrchu a phostio: Redkite Print

jonplumpton@gmail.com

Cyhoeddir rhifyn nesaf o **HEDDWCH** ym mis Ionawr 2022.

YMUNWCH Â CND CYMRU NAWR!

<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth>

